Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
University Health Board

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

**Adroddiad Cryfhau Partneriaethau Cymdeithasol**

**2024/25**

## Cyflwyniad

Daeth y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn gyfraith ym mis Awst 2022. Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar sut y gall sefydliadau gydweithio yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd deg a chyfrifol. Daeth y gyfraith i rym yn 2024. Mae'r Ddeddf yn sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer Gweinidogion Cymru i siarad gyda phartneriaid i fodloni nodau lles cymdeithasol. Mae'r cyngor yn cynghori Gweinidogion Cymru am y ffyrdd gorau y gall partneriaeth gymdeithasol weithio. Mae'r cyngor yn cynnwys y llywodraeth, cyflogwyr a gweithwyr gan gynnwys undebau llafur.
O dan y rheoliad, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus siarad gyda'u gweithwyr gyda'r nod o gytuno ar eu nodau lles a sut y byddant yn eu cyflawni. Mae partneriaeth gymdeithasol yn golygu gweithwyr a chyflogwyr yn cydweithio i ddatrys problemau. Ym mis Mawrth 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Llawlyfr Defnyddiwr yn amlinellu dyletswyddau cyrff cyhoeddus mewn perthynas â'r Ddeddf gan gyflwyno Adnodd Hunanasesu fel ffordd syml o asesu effeithiolrwydd gweithio mewn Partneriaeth. Cynhaliwyd asesiad sylfaenol gan ddefnyddio'r Adnodd Hunanasesu i lywio'r adroddiad hwn.

## Yr Adnodd Hunanasesu a'r Asesiad Llinell Sylfaen

Anfonwyd yr adnodd hunanasesu at 73 o aelodau o Grŵp Partneriaeth y Gweithlu i'w gwblhau a'i drafod yn y cyfarfod. Mae'r canlyniadau llawn wedi'u cynnwys yn atodiad A. Roedd y gyfradd ymateb yn 15% a phrofwyd a thrafodwyd y canlyniadau yn y Grŵp Partneriaeth Gweithlu ar 18 Gorffennaf 2025. Dangosodd y canlyniadau gydlyniant clir rhwng canlyniadau rheolwyr a chydweithwyr undebau llafur. Cytunodd pob parti yn gryf â'r datganiadau mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth yn PBC. Gan fod pob parti a oedd yn bresennol yn cwmpasu pob maes ar draws y sefydliad, penderfynwyd bod y canlyniadau ar y cyfan yn adlewyrchu cryfder gweithio mewn partneriaeth o fewn y Bwrdd Iechyd. Roedd pob parti yn cytuno bod y bartneriaeth yn gymharol iach ar draws pob maes. Bydd deialog yn parhau i sicrhau bod y lefelau sylfaenol yn cael eu cynnal a'u gwella pan gynhelir yr archwiliad nesaf.

Bydd canlyniadau'r Adnodd Hunanasesu yn cael eu rhannu â'r Fforwm Partneriaeth Lleol i brofi ymhellach a yw'r canlyniadau'n cael eu cytuno ar y lefelau uchaf yn y sefydliad.

## Cynhadledd Llywodraeth Cymru

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru gynhadledd i godi ymwybyddiaeth o ddyletswyddau a chyfrifoldebau holl gyrff cyhoeddus Gogledd Cymru ddydd Gwener, 15 Mawrth 2024. Cafodd Jan Tomlinson, Cadeirydd Ochr Staff a Kay Hannigan, Cyfarwyddwr Cyswllt Gwasanaethau Pobl, eu gwahodd i siarad yn y digwyddiad i rannu sut y mae partneriaeth gymdeithasol yn gweithredu o fewn PBC. Roedd siaradwyr allweddol eraill yn cynnwys Hannah Blythin, AS lleol a'r Dirprwy Weinidog dros Bartneriaeth Gymdeithasol ar y pryd. Roedd hwn yn fforwm ardderchog i amlygu cyflawniadau PBC mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth.

## Gweithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol ar Waith

O fewn PBC, mae Undebau Llafur yn gweithio’n agos gyda rheolwyr i ymgorffori egwyddorion partneriaeth gymdeithasol trwy weithio mewn partneriaeth. Mae Aelod Annibynnol Undeb Llafur y Bwrdd Iechyd yn eistedd ar y Bwrdd, sy'n sicrhau bod llais y bartneriaeth yn cael ei glywed ar y lefelau uchaf. Fel Aelod o'r Bwrdd, disgwylir i'r aelod annibynnol o'r undeb llafur gyfrannu'n llawn at drafodaethau'r Bwrdd.

Fforwm Partneriaeth Lleol BIPBC yw’r mecanwaith ffurfiol y mae rheolwyr ac undebau llafur a chyrff proffesiynol (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel sefydliadau staff) yn cydweithio i wella gwasanaethau iechyd i bobl Cymru. Dyma’r fforwm lle mae rhanddeiliaid allweddol yn ymgysylltu â’i gilydd i lywio, trafod a cheisio cytuno ar flaenoriaethau lleol ar faterion y gweithlu a'r gwasanaeth iechyd. Mae’r fforwm wedi sefydlu deialog reolaidd a ffurfiol rhwng Gweithrediaeth y Bwrdd a sefydliadau staff ar faterion sy’n ymwneud â materion y gweithlu a'r gwasanaeth iechyd. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter ac mae Cadeirydd Ochr Staff a'r Prif Swyddog Gweithredol yn cadeirio ar y cyd.

Mae’r Grŵp Partneriaeth Gweithlu yn cwrdd yn fisol i hyrwyddo a darparu deialog reolaidd rhwng y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau pobl, uwch reolwyr a phartneriaid undebau llafur ar faterion yn ymwneud â gweithlu PBC. Mae’r grŵp yn galluogi rheolwyr a phartneriaid undebau llafur i gyflwyno materion sy'n effeithio ar y gweithlu i'w trafod a gwneud penderfyniadau. Mae pob newid sefydliadol ac adolygiad gwasanaeth sy’n effeithio ar y gweithlu yn cael eu goruchwylio o fewn y grŵp, ac yn cael eu hymgynghori arnynt, cyn eu rhyddhau i'r sefydliad ehangach ar gyfer ymgynghoriad llawn.

Cynhelir ymgynghoriad ffurfiol rhwng y sefydliad a Chymdeithas Feddygol Prydain (BMA) trwy’r Pwyllgor Negodi Lleol. Dyma’r cyfle i gynrychiolwyr y BMA gwrdd ag uwch arweinwyr y Bwrdd Iechyd i drafod materion gweithio mewn partneriaeth sy'n benodol berthnasol i'r gweithlu meddygol.

Mae gan bob un o’r cymunedau iechyd grwpiau pobl a diwylliant gyda chynrychiolwyr undebau llafar lleol wedi'u gwahodd i fod yn aelodau craidd o'r grŵp. Pwrpas y grŵp yw cynghori a rhoi sicrwydd i’r Uwch Dîm Arwain lleol ar ddatblygiad, gweithredu ac effeithiolrwydd strategaethau mewn perthynas â'r gweithlu, datblygiad sefydliadol a diwylliant y gymuned iechyd. Mae’r grŵp hefyd yn rhoi cyngor a sicrwydd mewn perthynas ag alinio strategaethau â Byw'n Iach, Aros yn Iach a strategaethau cenedlaethol perthnasol. Mae'r grŵp hefyd yn gyfrifol am ddarparu

tystiolaeth o effaith y gwelliant i Uwch Dîm Arwain Cymuned Iechyd Integredig Ardal y Canol wrth weithredu strategaethau.

**Trefniadau Cyfleusterau**

Mae PBC wedi ymrwymo i sicrhau bod cynrychiolwyr undebau llafur yn cael amser rhesymol i ffwrdd â thâl i ymgymryd â dyletswyddau undeb llafur fel yr amlinellir yng Nghytundeb Partneriaeth a Chydnabyddiaeth WP15. Mae’r cytundeb yn dynodi’r fframwaith ar gyfer amser i ffwrdd a chyfleusterau ar gyfer cynrychiolwyr achrededig Undebau Llafur a gydnabyddir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), yn unol â thelerau ac amodau Agenda ar gyfer Newid Cymru.

Fel rhan o ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i’r agenda gweithio mewn partneriaeth, mae’n cydnabod bod buddsoddi mewn Cytundeb Amser i Ffwrdd a Chyfleusterau yn agwedd allweddol ar reoli'r bobl sy'n darparu gwasanaethau iechyd i boblogaeth Gogledd Cymru ac ymwelwyr yr ardal. Mae’r cytundeb yn ystyried y fframwaith statudol perthnasol.

Mae BIPBC yn cydnabod y bydd darparu amser i ffwrdd a chyfleusterau i gyflawni dyletswyddau a gweithgareddau undebau llafur o fudd i'r Bwrdd Iechyd a'r sefydliadau undebau llafur. Mae BIPBC yn cydnabod y cynnydd sylweddol yn y gofynion a osodir ar sefydliadau Undebau Llafur wrth i'r agenda bartneriaeth ddatblygu ac wrth iddi barhau i ddatblygu. Mae wedi ymrwymo i gefnogi cynrychiolwyr i ymgymryd â’u rolau a’u cyfrifoldebau.

**Casgliad**

Mae BIPBC wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â’i sefydliadau staff ac undebau llafur i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru. Mae’r adnodd hunanasesu wedi dangos cydlyniant ar draws y sefydliad, gyda phob parti yn cadarnhau bod y bartneriaeth yn gymharol iach a dylid parhau i’w chynnal a’i gwella.

Partneriaeth gymdeithasol yw'r mecanwaith y mae rhanddeiliaid allweddol yn ymgysylltu â'i gilydd i lywio, trafod a cheisio cytuno ar flaenoriaethau lleol ar faterion y gweithlu a'r gwasanaeth iechyd. Mae hyn yn galluogi i ddeialog ffurfiol ac anffurfiol reolaidd ddigwydd rhwng Gweithredwyr, rheolwyr a sefydliadau staff ar faterion sy’n ymwneud â’r gweithlu a gwasanaethau iechyd.

Cydnabyddir y bydd penderfyniadau anodd eu gwneud wrth symud ymlaen, a fydd yn gofyn am drafodaethau cadarn. Fodd bynnag, mae deialog barhaus yn galluogi pob parti i gydweithio i ddod o hyd i ateb derbyniol. Cyflawnir canlyniadau gwell trwy wrando ar farn eraill, archwilio safbwyntiau eraill, a cheisio atebion amgen. Mae partneriaeth gymdeithasol yn cynnwys cydweithwyr yng nghyfnodau cynnar dechrau prosiect, nid dim ond ymgynghori ar ôl i'r cynllun gael ei ddatblygu.

**Blaengynllun**

Er ein bod yn cydnabod bod partneriaeth gymdeithasol wedi'i hymgorffori o fewn PBC, dangosodd yr archwiliad fod meysydd ar gyfer gwella a'r her yw cynnal y safonau yr ydym yn eu cyflawni ac yn ymdrechu i wella. Bydd partneriaeth gymdeithasol yn rhan annatod o bob rhaglen datblygu arweinyddiaeth. Bydd adolygiad o'r rhaglenni yn cael ei gynnal i sicrhau bod partneriaeth gymdeithasol yn cael ei hymgorffori.

Bydd y sefydliad yn cefnogi cynrychiolwyr undebau llafur i gael rhyddid i ymgymryd â'u cyfrifoldebau partneriaeth gymdeithasol. Bydd PBC yn cefnogi aelodau undebau llafur i ennill achrediad i ymgymryd â rolau cynrychioliadol i weithio ochr yn ochr â chynrychiolwyr achrededig presennol. Bydd cyfleoedd i ddod yn gynrychiolwyr achrededig yn cael eu hyrwyddo.

Bydd adroddiadau ar weithgareddau partneriaeth gymdeithasol yn parhau i gael eu rhannu trwy'r Fforwm Partneriaethau Lleol a'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant.